



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Cynorthwyo pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i sicrhau dyfodol llwyddiannus a gallu byw'n annibynnol

First published: 30 September 2019

Last updated: 25 September 2022

This document was downloaded from socialcare.wales and may not be the latest version.

Go to <https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gwella-gofal-a-chymorth/plant-syn-derbyn-gofal/cefnogi-pobl-sydd-wedi-profi-gofal-i-gael-dyfodol-llwyddiannus-a-bywn-annibynnol> for the latest version.

Dysgwch fwy am sut mae'r Grŵp Ymgynghorol i'r Gweinidog yn helpu pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i gael dyfodol llwyddiannus a byw'n annibynnol

Beth yw'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal?

Mae angen cymorth a chyfeiriad ar bob oedolyn ifanc i'w helpu i gyflawni eu nodau a'u huchelgeisiau.

Rydym yn gwybod bod pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn aml yn trosglwyddo i fyw'n annibynnol yn gynt na'r mwyafrif o blant ac yna'n wynebu rhwystrau sy'n eu hatal rhag cyflawni eu nodau, fel diffyg cyllid a llety sefydlog.

Mae hyn yn ei dro yn ei gwneud yn heriol iddynt ddilyn addysg bellach neu uwch, prentisiaethau neu gyfleoedd gwaith.

Beth yw'r dyletswyddau i ofalu am bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal o dan ddeddfwriaeth Cymru?

Rhaid i wasanaethau cymdeithasol, budd-daliadau lles, darparwyr hyfforddiant, adrannau tai, iechyd ac addysg weithio gyda'i gilydd i gynllunio symudiad pob unigolyn ifanc i annibyniaeth.

Mae [adrannau 105 i 115 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) yn rhoi dyletswyddau ar awdurdod lleol i ddarparu cymorth i

blant a phobl ifanc pan fyddant yn peidio â derbyn gofal (ymadawyr gofal).

Bwriedir i'r cymorth fod yn gyfwerth â'r hyn y gallai plentyn nad yw wedi derbyn gofal ei ddisgwyl yn rhesymol gan ei rieni.

Y pwrpas yw cynorthwyo'r bobl ifanc hyn i fyw'n annibynnol pan fo'r amser yn iawn iddynt wneud hynny, a chyflawni eu potensial llawn.

Sut mae Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal?

Mae adroddiad gan Gomisiynydd Plant Cymru, [Breuddwydion Cudd Blwyddyn ar ôl cyhoeddi: Adroddiad dilynol ar welliannau awdurdodau lleol ac arfer da wrth gefnogi ymadawyr gofal](#), yn dangos bod canlyniadau da yn cael eu cyflawni.

Mae angen i'r enghreifftiau hyn ddod yn arfer safonol yng Nghymru:

- darparu hyfforddiant a chyfleoedd prentisiaeth
- rhagor o ddewisiadau llety
- gwybodaeth glir a chymorth ariannol
- cyfleoedd i bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal ddatblygu a monitro'r cymorth a gynigir iddynt
- ffyrdd o leihau tlodi ymhlith pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi:

- sefydlu Cronfa Dydd Gŵyl Dewi i gynorthwyo pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i drosglwyddo'n llwyddiannus i fyw'n annibynnol
- rhoi cyllid i awdurdodau lleol i sefydlu neu wella cynlluniau sy'n cynnig hyfforddiant a chyfleoedd gwaith o fewn gweithlu'r cyngor ei hun

- estyn yr hawl i bobl ifanc 21-25 oed sydd â phrofiad o ofal gael ymgynghorydd personol
- wedi ymrwymo i gyflwyno deddfwriaeth ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal i gael y lefel uchaf o gynhaliaeth i fynd addysg uwch, fel yr argymhellwyd gan Adolygiad Diamond o Gyllido Addysg Uwch a Threfniadau Cyllid Myfyrwyr yng Nghymru.
- [Cyflwyno gwaith monitro i sicrhau bod llety gwely a brecwast yn ddewis olaf i bobl ifanc sy'n gadael gofal](#) (Saesneg yn unig).

Fodd bynnag, nid yw mynediad at dai â chymorth ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn cwrdd â'r galw.

Mae rhwng 20 a 30 y cant o'r holl bobl ifanc ddigartref wedi derbyn gofal.

Hwyluso ymgysylltu a chyfranogiad plant a phobl ifanc

Mae'r [Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol Plant a Phobl Ifanc](#) yn darparu fframwaith ar gyfer ymgysylltu a chyfranogi gan blant a phobl ifanc.

Mae Llywodraeth Cymru, gyda chymorth Comisiynydd Plant Cymru, wedi comisiynu [arolwg peilot yn mesur llesiant plant sydd â phrofiad o ofal mewn chwe awdurdod lleol](#) (Saesneg yn unig).

Nod yr astudiaeth yw:

- gwella'r profiad gofal ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal
- rhoi llais i blant ar eu llesiant eu hunain

- tynnu sylw at 'esiampiau disglair' ymarfer sy'n cyfrannu at blant yn ffynnu mewn gofal.

Cwblhaodd 686 o blant a phobl ifanc yr arolwg, a gynhyrchodd fewnwelediadau pwysig.

Mae'r rhan fwyaf o blant mewn gofal yng Nghymru wedi ymgartrefu yn eu lleoliadau ac yn hapus â'u bywydau yn gyffredinol. Fodd bynnag:

- Nid oedd 36 y cant o blant (4-7 oed) yn deall pam eu bod yn derbyn gofal
- roedd tua chwarter y plant a'r bobl ifanc eisiau cyswllt amlach â rhiant
- nid oedd gan bron i un o bob pump (19 y cant) o bobl ifanc (11-18 oed) a 15 y cant o blant (8-10 oed) unrhyw gyswllt â'r naill riant na'r llall
- roedd traean y bobl ifanc (11-18 oed) yn teimlo nad oedd ganddynt ddigon o gyswllt â'u brodyr a'u chwiorydd
- roedd chwarter y bobl ifanc (11-18 oed) wedi cael tri neu ragor o weithwyr cymdeithasol yn y flwyddyn flaenorol.

Mae'r GCG yn comisiynu arolwg plant drwy Gymru gyfan i ategu'r gwaith o roi'r fframwaith perfformiad plant ar waith.

Adnoddau defnyddiol

Cyfranogiad ystyrlon o blant a phobl ifanc mewn penderfyniadau am eu gofal - gweminar gan Exchange (Saesneg yn unig)

[Cyfranogiad Ystyrlon o Blant a Phobl Ifanc mewn Penderfyniadau am eu Gofal - Gweminar Exchange](#)

PDF 1MB